

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cefnogi elusennau, gwirfoddolwyr a chymunedau



4. Gwirfoddolwyr

4.9 Gwirfoddoli i weithio gydag oedolion a phlant syn agored i niwed

Rhaid i les plant ac oedolion sy'n agored i niwed fod yn brif ystyriaeth unrhyw fudiad gwirfoddol sy'n gweithio gyda phobl o'r fath. Mae gwirfoddolwyr yn chwarae rôl hanfodol wrth wella bywydau pobl agored i niwed, ond nid yw pob gwirfoddolwr yn addas ar gyfer y math yma o waith, ac ar rai adegau, gallant greu bygythiad. Golyga hyn fod angen gweithredu asesiadau risg ar gyfer gwaith sy'n cynnwys pobl agored i niwed, mabwysiadu arferion gweithio diogel, mynnu recriwtio a dethol da, a defnyddio systemau arolygu cadarn.

Mae'r daflen wybodaeth yma yn darparu cyngor ar sut i ddatblygu arferion gweithio diogel a fydd yn helpu lleihau risg. Mae'n dibynnu ar ganllawiau a chôd ymarfer Llywodraeth Cymru yn *Safe From Harm* (2007).

Datganiad polisi

Dylai pob mudiad gwirfoddol fabwysiadu datganiad polisi ysgrifenedig sy'n amlinellu ei bolisi ynghylch diogelu lles y plant a/neu yr oedolion agored i niwed y mae'n gweithio gyda nhw. Dylai'r datganiad nodi'n glir ddyletswydd pawb sy'n gweithio i'r mudiad, neu sydd ynghlwm wrth y mudiad, i atal cam-drin unrhyw blant a/neu oedolion agored i niwed y maent mewn cyswllt â nhw.

Mae'n hanfodol bod y staff a'r gwirfoddolwyr i gyd, eu rheolwyr llinell neu'u goruchwylwyr, a llunwyr polisïau wedi eu hyfforddi mewn materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'n rhaid i staff a gwirfoddolwyr y mudiad ddilyn gweithdrefnau y cytunwyd arnynt ar gyfer amddiffyn plant a/neu oedolion agored i niwed.

Datblygu arferion rheoli da

a) Asesiad risg

Mae rheoli risg yn ymwneud â delio â ffactorau ansicr a lleihau neu gael gwared ar ffactorau risg. Mae'r broses rheoli risg yn cynnwys nodi risgiau, penderfynu pa mor ddifrifol neu debygol ydynt, a rheoli'r risgiau hynny.

Pan fydd gwirfoddolwyr yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid agored i niwed, neu pan fyddant yn mynd i gartrefi pobl, mae'n rhaid i'r mudiad wneud popeth sy'n bosib er mwyn amddiffyn y gwirfoddolwyr a'r cleientiaid rhag anaf, rhag colled, a rhag cael eu cam-drin.

Dyma gamau a allai fod yn briodol:

- Sgrinio
- Cynefino a hyfforddi
- Asesu risg
- Cadw cofnodion
- Adolygu
- Yswiriant

Ar ôl i risgiau gael eu nodi, dylai mudiad ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ar bapur, llawlyfrau i wirfoddolwyr, llawlyfrau i ymddiriedolwyr a ffurflenni ar gyfer asesu risg a chofnodi digwyddiadau.

Dylai strategaeth gyfathrebu hefyd gael ei datblygu i sicrhau bod pawb sydd ynghlwm wrth y mudiad yn cael gwybod am y cynllun rheoli risg.

b) Gwiriad y CRB

Mae nifer o fudiadau sy'n gweithio gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed yn defnyddio archwiliadau cofnodion troseddol fel rhan o'r arfer gorau ar gyfer diogelu gwirfoddolwyr. Mae gan fudiad yr hawl i ofyn am Ddatgeliad (archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol) ar gyfer staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion agored i niwed.

Mae cam cofrestru Awdurdod Diogelu Annibynnol y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd ar stop er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth ailfodelu'r cynllun gan geisio cael un 'cymesur sy'n dangos synnwyr cyffredin' unwaith eto. O ganlyniad, mae cam cofrestru Awdurdod Diogelu Annibynnol y cynllun ar stop, ac ni chafodd ei lansio ar 26 Gorffennaf 2010.

Tra bydd y gofynion terfynol ar gyfer unigolion a ddylai gofrestru gyda'r cynllun yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, mae'n bwysig cofio bod y gofynion a gyflwynwyd fis Hydref fel rhan o gam cyntaf y Cynllun Archwilio Cefndir a Gwahardd yn dal mewn grym.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- er mis Ionawr 2009, mae'r Awdurdod Diogelu Annibynnol wedi bod yn gwneud penderfyniadau annibynnol ynglŷn â gwahardd. Bydd yn parhau i gynnal dwy restr sy'n cael eu diweddarau'n gyson, un ohonynt yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant, a'r llall yn cynnwys y rheini sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion agored i niwed;
- bydd y gofynion presennol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn parhau mewn grym, a chaiff y rheini sy'n gymwys i gael y cyfryw archwiliadau barhau i wneud cais amdanynt;
- mae'n dal yn ddyletswydd gyfreithiol i gyflogwyr gyfeirio gwybodaeth at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol os ydynt wedi symud neu wedi diswyddo unigolyn gan eu bod wedi peri niwed neu gan fod perygl iddynt niweidio aelod o grŵp agored i niwed.

Mabwysiadu a defnyddio'n gyson ddull trylwyr, wedi'i ddiffinio'n glir, o recriwtio a dethol staff a gwirfoddolwyr

Dylai staff a gwirfoddolwyr unrhyw swyddi sy'n cynnwys cyswllt â phlant a/neu oedolion agored i niwed ddilyn egwyddorion yr arferion gorau o ran recriwtio a chadw.

Dylid gwirio pwy yw pob ymgeisydd, a dylai unrhyw un sy'n gweithio mewn swydd reoledig, neu sy'n gwneud cais i weithio mewn swydd reoledig gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed, gael archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Wrth recriwtio unigolyn, dylid archwilio ei restr cyflogaeth lawn, a dylid gwirio pob honiad ynghylch cymwysterau ac aelodaeth o gyrff proffesiynol.

Dylai'r mudiad sy'n recriwtio bob amser ofyn am o leiaf ddau dystlythyr ar bapur gan bobl sydd â phrofiad o waith neu waith gwirfoddol yr ymgeisydd gyda phlant a/neu oedolion agored i niwed. Dylai pob penodiad fod yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus. Bydd hyd y cyfnod prawf yn dibynnu ar natur y swydd, ond fel arfer bydd yn para rhwng tri mis a blwyddyn. Dylai dyddiad pendant ar gyfer adolygiad cyfnod prawf gael ei bennu wrth benodi unigolyn.

Cefnogaeth ac arolygaeth gwirfoddolwyr

Mae ar fudiadau angen llinellau atebolrwydd clir fel modd o amddiffyn plant a/neu oedolion agored i niwed Dylai mudiadau sicrhau bod y rheini sy'n uniongyrchol gyfrifol am staff sydd mewn cysylltiad â phlant a/neu oedolion agored i niwed yn defnyddio goruchwyliaeth reolaeth dda er mwyn atal neu sylwi ar achos o gam-drin.

Dylai gwirfoddolwyr gael digon o gefnogaeth ym mhob sefyllfa, er mwyn eu galluogi i gyflawni tasgau yn effeithlon ac yn hyderus. Mae cefnogaeth a goruchwyliaeth yn swyddogaethau ar wahân sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Gellir eu symleiddio orau drwy weld cefnogaeth fel rhywbeth sy'n 'canolbwyntio ar yr unigolyn' a goruchwyliaeth fel rhywbeth sy'n 'canolbwyntio ar waith'. Mae'r ddau yn hanfodol wrth reoli risg.

Dylai goruchwyliaeth fod â strwythur a dylai fod yn ffurfiol. Dylai adael i chi fyfyrion ynghylch y gwaith yng nghyswllt y safonau a'r targedau rydych chi eisoes wedi cytuno arnynt gyda'r gwirfoddolwr. Dylai pob sesiwn goruchwylio ddod i ben gyda chynllun ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Cadwch gofnodion o broblemau a phenderfyniadau a wnaed yn ystod y sesiynau hyn. Bydd y rhain yn ddefnyddiol wrth ddilyn hynt problemau a chynnydd.

Honiadau neu amheuan o gamdriniaeth

Dylai mudiad gyhoeddi canllawiau ar sut i ddelio â datgelu neu ganfod achos o gam-drin. Ar gyfer eu staff a'u gwirfoddolwyr, cynghorir mudiadau i baratoi a rhoi iddynt ganllawiau ysgrifenedig cryno sy'n amlinellu'r camau y dylent eu cymryd os yw plentyn a/neu oedolyn agored i niwed yn datgelu wrthynt ei fod yn cael ei gam-drin, neu os ydynt yn canfod bod achos o gam-drin wedi digwydd.

Dylai'r canllawiau hyn gynnwys:

- rhywbeth i'w hatgoffa o'r ddyletswydd i atal achosion o gam-drin, gan gynnwys y ddyletswydd i riportio unrhyw achos o gam-drin a ddatgelir neu sy'n cael ei amau;
- canllawiau ar beth yw cam-drin a sut mae ei adnabod;
- cyfarwyddiadau ynghylch pwy i roi gwybod iddo os datgelir neu canfyddir achos o gam-drin.

Cyfrinachedd a chyfathrebu gwybodaeth

Dylai'r dull o ddelio â gwybodaeth gyfrinachol fod yr un fath, ni waeth a fwriedir datgelu gwybodaeth yn fewnol mewn un mudiad ynteu rhwng asiantaethau. Bydd yr angen i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i eraill o fewn eich mudiad eich hun yn codi'n amlach na'r angen i ddatgelu i asiantaethau eraill. Bydd achlysuron yn codi pan fydd yn rhaid i unigolyn benderfynu a yw amgylchiadau'n cyfiawnhau'r datgelu.

Mae'n arfer da i rannu gwybodaeth gyda theuluoedd, a dylai fod rhagdybiaeth o blaid bod yn agored, oni bai y byddai hynny'n peryglu diogelwch. Mae'n bosib bod yn rhaid i rywffaint o wybodaeth sydd gan bobl broffesiynol gael ei thrin yn gyfrinachol a ni ddylid ei rhannu o flaen aelodau o deulu neu ofalwyr, megis gwybodaeth yn ymwneud ag aelod penodol o deulu a fyddai'n gallu effeithio ar ymchwiliad troseddol.

Dylai unigolion sy'n gweithio ar y cyd â theuluoedd neu ofalwyr ddod i ddealltwriaeth gyffredin yn ystod pob cam o'u hymyriad ynghylch pa wybodaeth y dylid ei datgelu i'r teulu neu'r gofalwyr. Dylai unrhyw resymau am ddal gwybodaeth yn ôl fod yn glir ac wedi'u cofnodi. Mewn amgylchiadau o'r fath, diogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r oedolyn agored i niwed ddylai fod yr ystyriaeth bwysicaf.

Gwybodaeth bellach

WCVA CRU

Ffôn: 0800 0197 391

Ffacs: 01745 357593

cru@wcva.org.uk

www.wcva-cru.org.uk

Criminal Records Bureau

www.crb.gov.uk

Awdurdod Diogelu Annibynnol

www.isa-gov.org.uk

The National Society for the Prevention of Cruelty to Children (NSPCC)

www.nspcc.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF10 5FH

Elusen Gofrestredig 218093

Ffôn: 0800 2888 329

help@wcva.org.uk

Ffacs: 029 2043 1701

www.wcva.org.uk



Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 09/06/2011